

Adroddiad Arolygu Gwasanaeth Iechyd Meddwl Annibynnol (Dirybudd)

Ysbyty Annibynnol St David's, Mental
Health Care Limited

Dyddiad yr arolygiad: 19, 20 a 21 Mehefin 2023

Dyddiad cyhoeddi: 21 Medi 2023



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83504-535-0

© Hawlfraint y Goron 2023

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiuedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom.....	5
2. Crynodeb o'r arolygiad	6
3. Yr hyn a nodwyd gennym	8
Ansawdd Profiad y Claf	8
Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol.....	11
Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	16
4. Y camau nesaf	19
Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	20
Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith.....	21
Atodiad C - Cynllun gwella.....	23

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad iechyd meddwl annibynnol dirybudd o Ysbyty Annibynnol St David's ar 19, 20 a 21 Mehefin 2023.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys dau Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac un adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o dri holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm ymroddedig o staff a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel i'r cleifion. Gwelsom y staff yn dangos parch wrth rhyngweithio â'r cleifion drwy gydol yr arolygiad.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cael dodrefn newydd yn lle'r dodrefn sy'n dangos ôl traul yn y lolfa a'r coridor ar y llawr cyntaf
- Diweddarau'r hysbysfwrdd 'Dywedoch chi, gwnaethom ni'.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd barchus
- Gwaith tîm da a staff sy'n llawn cymhelliant
- Rhaglen weithgareddau dda ar gyfer y cleifion.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd prosesau ac archwiliadau sefydledig ar waith i reoli risgiau, iechyd a diogelwch a rheoli heintiau. Roedd hyn yn galluogi'r staff i barhau i ddarparu gofal diogel a chlinigol effeithiol. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisïau a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Mae'r trefniadau cynllunio gofal yn rhagorol, ac yn adlewyrchu meysydd Mesur Cymru. Roedd y cynlluniau gofal yn fanwl iawn, wedi'u teilwra at yr unigolyn ac yn adlewyrchu amrywiaeth eang o elfennau lle roedd y tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gynnwys. Roedd tystiolaeth glir wedi'i dogfennu fod y cleifion yn cael eu cynnwys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen ailbaentio'r coridor ar y llawr cyntaf.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Trefniadau cynllunio gofal o safon dda
- Prosesau diogel ac effeithiol ar gyfer rheoli meddyginiaethau
- Cynlluniau cynhwysfawr a manwl ar gyfer Cefnogi Ymddygiad yn Gadarnhaol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff ymrwymedig a oedd yn deall anghenion y cleifion yn yr ysbyty yn dda. Roedd rheolwr yr ysbyty a'r dirprwy reolwr yn dangos arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig. Fodd bynnag, mae angen gwneud rhai gwelliannau mewn perthynas â diweddarau polisiau a chydymffurfio â hyfforddiant gorfodol.

Gwelsom fod strwythur llywodraethu effeithiol ar waith o ran gweithgareddau archwilio rheolaidd a chyfarfodydd i drafod digwyddiadau, cwynion a materion sy'n ymwneud â gofal cleifion.

Roedd gwelliannau sylweddol wedi cael eu gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2019. Roedd y gwelliannau hyn yn ymwneud â lleihau'r defnydd o staff asiantaeth, roedd pecyn sefydlu mwy cadarn ar waith, ac roedd y staff yn archwilio ac yn cynnal lefelau arsylwi yn unol â'r canllawiau.

Gwelsom dîm o staff cyfeillgar, proffesiynol a charedig a oedd yn dangos ymrwymiad i roi gofal o ansawdd uchel i'r cleifion.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol
- Adolygu a diweddarau polisiau.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Recriwtio a chadw staff
- Roedd proses sefydlu dda ar waith ar gyfer aelodau newydd o staff
- Roedd rheolwr yr ysbyty a'r dirprwy reolwr yn darparu arweinyddiaeth gadarn i'r staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Hybu, diogelu a gwella iechyd

Dosbarthwyd holiaduron AGIC gennym yn ystod yr arolygiad er mwyn cael sylwadau ar y gwasanaeth a ddarperir yn yr ysbyty. Cawsom dri ymateb i'r holiaduron; mae angen cadw'r nifer bach hwn mewn cof wrth ystyried yr ymatebion hyn.

Gwnaethom hefyd adolygu'r arolygon adborth mewnol gan gleifion i'n helpu i lunio barn ar brofiad cyffredinol cleifion. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw wrthym fod y staff yn eu trin yn dda a'u bod yn garedig wrthynt.

Roedd nifer o daflenni hybu iechyd a manylion am sefydliadau cymorth ar gael yn yr ysbyty ar gyfer y cleifion, ac roeddent hefyd ar gael mewn fformatau hawdd eu deall.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom y cleifion yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau gwahanol. Roedd gweithgareddau wedi cael eu cynllunio ar gyfer y cleifion yn ystod y dydd, ond nododd un ymateb yn yr holiadur i gleifion yr hoffai'r unigolyn fynd ar fwy o deithiau.

Roedd un ardal fwyta fawr ar gael i'r cleifion, yn ogystal ag un ardal fwyta lai i gleifion a oedd am gael rhywfaint o amser tawel.

Urddas a pharch

Gwnaethom nodi bod yr holl gyflogeion, staff wardiau, uwch-reolwyr, a staff gweinyddol, yn rhyngweithio ac yn ymgysylltu â'r cleifion yn briodol, gan eu trin ag urddas a pharch.

Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn frwdfrydig am eu rolau a'r modd roeddent yn cefnogi'r cleifion ac yn gofalu amdanynt. Gwelsom fod y rhan fwyaf o'r staff yn cymryd amser i siarad â'r cleifion ac i ymdrin ag unrhyw anghenion neu bryderon roedd y cleifion yn eu codi, gan ddangos agweddau ymatebol a gofalgarn tuag at y cleifion.

Roedd gan rai o'r cleifion ystafelloedd gwely en-suite a oedd yn rhoi safon dda o breifatrwydd ac urddas. Gallai'r cleifion gloi eu hystafelloedd ond gallai'r staff eu hagor o hyd pe bai angen. Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion drwy gnocio ar ddrysau'r ystafelloedd gwely a'r ystafelloedd ymolchi cyn mynd i mewn. Roedd y cleifion yn gallu personoli eu hystafelloedd a storio eu heiddo personol. Roedd asesiadau risg yn cael eu cynnal mewn perthynas â phob eitem bersonol er

mwyn sicrhau diogelwch pob claf. Roedd hyn yn cynnwys y defnydd o ffonau symudol personol. Roedd ffôn ar gael yn yr ysbyty i'r cleifion ei ddefnyddio i gysylltu â ffrindiau a theulu pe bai angen, ac roedd dyfeisiau digidol ar gael i'r cleifion eu defnyddio gyda chymorth y staff pan fo angen.

Roedd panel gweld ar ddrws pob ystafell wely a oedd yn galluogi'r staff i arsylwi o'r coridor heb agor y drws, er mwyn osgoi achosion o amharu ar y cleifion pan fyddent yn cysgu cymaint â phosibl. Wrth i ni edrych o amgylch yr ysbyty, roedd yn gadarnhaol nodi bod y paneli gweld yn cael eu cadw ar gau oni bai eu bod yn cael eu defnyddio er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion wrth i bobl fynd heibio'r ystafelloedd.

Mae ystafell aml-ffydd yn St David's, sy'n cynnig man tawel i'r staff a'r cleifion ei ddefnyddio. Dywedwyd wrthym fod yr ystafell hon yn cael ei defnyddio'n aml gan y staff a'r cleifion.

Gwybodaeth i gleifion a chydysyniad cleifion

Roedd yr hysbysfyrddau i gleifion a oedd i'w gweld yn yr ysbyty yn cynnwys gwybodaeth berthnasol er mwyn helpu'r cleifion a'u teuluoedd i ddeall eu gofal.

Roedd gwybodaeth ar gael am rôl AGIC, eiriolaeth ac am rwydweithiau cymorth eraill.

Cyfathrebu'n effeithiol

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff yn ymgysylltu ac yn cyfathrebu â'r cleifion mewn ffordd gadarnhaol.

Gwelsom fod y staff yn ymgysylltu â'r cleifion mewn ffordd sensitif ac yn cymryd amser i'w helpu i ddeall eu gofal, gan ddefnyddio iaith briodol.

Cynllunio a darparu gofal

Roedd gan y cleifion eu cynllunydd gweithgareddau wythnosol eu hunain, gan gynnwys sesiynau unigol a sesiynau grŵp yn yr ysbyty ac yn y gymuned (os oeddent wedi cael yr awdurdod priodol i wneud hynny). Yn ystod yr arolygiad, gwelsom y staff a'r cleifion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Gwelsom y staff yn parchu preifatrwydd y cleifion. Er enghraifft, drwy ddeall pan oedd yn well gan y cleifion gael llonydd a hwyluso hyn, ond gan ar yr un pryd gynnal lefelau arsylwi priodol.

Roedd y cleifion yn cymryd rhan lawn mewn adolygiadau amlddisgyblaethol misol. Gwelsom dystiolaeth fod cynlluniau gofal yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod

cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o gyfranogiad amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal a oedd yn fanwl iawn ac wedi'u personoli. Roedd hyn yn helpu'r ysbyty i allu rhoi gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Gwelsom fod trefniadau gweithredol ar waith ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty pan oeddent yn barod i gael eu rhyddhau. Gwnaethom gadarnhau bod penderfyniadau mewn perthynas â rhyddhau cleifion ac mewn perthynas â lleoliadau yn y dyfodol yn cael eu trafod â'r cleifion, a'u perthnasau lle y bo'n briodol, fel rhan o'u hadolygiadau gan y tîm amlddisgyblaethol.

Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Gwelsom fod trefniadau ar waith i hyrwyddo a diogelu hawliau'r cleifion.

Roedd y ddogfennaeth gyfreithiol a welsom i gadw cleifion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Roedd gwasanaethau eirioli ar gael i bob un o'r cleifion, a dywedwyd wrthym fod eiriolwyr yn ymweld â'r ysbyty.

Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Roedd cyfarfodydd cleifion ac arolygon yn cael eu cynnal yn rheolaidd er mwyn galluogi'r cleifion i roi adborth ar y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Roedd gwybodaeth ar gael hefyd i berthnasau a gofalwyr ynghylch sut i roi adborth. Gwelsom dystiolaeth o arolygon cleifion diweddar a chynlluniau gweithredu a oedd yn dangos sut roedd yr ysbyty yn gwneud gwelliannau a newidiadau yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg cleifion. Roedd dogfennaeth hawdd ei deall ar gael i'r cleifion yn ôl yr angen.

Roedd hysbysfwrdd i gleifion yn yr ysbyty a oedd yn cynnwys gwybodaeth am y broses 'dywedoch chi, gwnaethom ni'. Nid oedd y wybodaeth a oedd wedi'i harddangos yn gyfredol a dylid cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysfyrddau i gleifion yn gyfredol.

Roedd polisi a gweithdrefn gwyno ar waith. Roedd y polisi yn cynnig strwythur ar gyfer ymdrin â phob cwyn yn yr ysbyty.

Gwelsom gofnodion cyfarfodydd a oedd yn dangos bod y staff yn hysbysu'r cleifion yn rheolaidd am ba gamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb i faterion a godwyd. Gwnaethom edrych ar sampl o gwynion a oedd yn dangos bod y gwasanaeth yn ymdrin â nhw yn unol â pholisi'r darparwr cofrestredig.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Gofal Diogel

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Roedd mynediad i'r ysbyty yn ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod. Gallai'r staff gael mynediad i'r ysbyty drwy ddefnyddio cardiau llithro, ac roedd ymwelwyr yn canu'r gloch wrth fynedfa'r ysbyty.

Roedd y staff yn gwisgo larymau personol y gallent eu defnyddio i alw am help pe bai angen. Roedd pwyntiau galw am nyrs ar gael o gwmpas yr ysbyty ac yn ystafelloedd gwely ac ystafelloedd ymolchi'r cleifion, fel y gallai'r cleifion alw am gymorth pe bai angen. Nodwyd nad oedd rhai botymau galw yn ystafelloedd gwely'r cleifion o fewn cyrraedd y cleifion o'u gwely.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd y clychau galw yn eu hystafelloedd gwely yn hawdd.

Gwelsom dystiolaeth o asesiadau risg amrywiol a oedd wedi cael eu cynnal, gan gynnwys asesiadau risg ar gyfer pwyntiau clymu ac asesiadau risg tân. Dywedwyd wrthym am y gwiriadau amgylcheddol sy'n cael eu cwblhau a gwelsom dystiolaeth i ddangos eu bod yn cael eu cwblhau.

Disgrifiwyd strategaethau ar gyfer rheoli ymddygiad heriol er mwyn hybu diogelwch a llesiant y cleifion. Dywedwyd wrthym fod technegau ataliol yn cael eu defnyddio a lle bo angen, byddai'r staff yn arsylwi ar y cleifion yn amlach os oedd eu hymddygiad yn achosi pryder. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff fod y cleifion yn cael eu hatal yn gorfforol mewn ffordd ddiogel, ond nad oedd hynny'n digwydd yn aml a dim ond pan fetho popeth arall. Roedd unrhyw ddefnydd o atal yn gorfforol yn cael ei ddogfennu. Cadarnhaodd y wybodaeth a gyflwynwyd i'r tîm arolygu fod y data ar atal yn gorfforol yn isel.

Roedd seicolegydd fforensig yn aelod o'r rhwydwaith ar gyfer lleihau achosion o atal cleifion yn gorfforol, sy'n canolbwyntio ar leihau achosion o'r fath, gwerthuso a dysgu o ddigwyddiadau.

Edrychodd aelodau'r tîm arolygu ar amgylchedd yr ysbyty wrth iddynt gael eu tywys o amgylch yr ysbyty ar noson gyntaf yr arolygiad ac yn ystod diwrnodau eraill yr arolygiad. Roedd yr ysbyty i'w weld yn lân ac yn daclus; fodd bynnag, gwnaethom nodi rhai materion addurnol ac amgylcheddol yr oedd angen rhoi sylw iddynt:

- Mae angen ailbaentio waliau'r coridor ar y llawr cyntaf
- Mae angen gosod clo newydd ar y drws yn ardal yr ystafell fwyta fach i gleifion

- Mae'r dodrefn yn y lolfa glinigol a'r dodrefn a ddefnyddir gan y staff i gynnal arsylwadau wedi treulio ac mae angen eu trwsio neu gael rhai newydd yn eu lle.

Dylai'r darparwr cofrestredig ystyried y materion amgylcheddol uchod.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Disgrifiwyd system o drefniadau archwilio rheolaidd o ran rheoli heintiau. Roedd y trefniadau hyn yn cael eu rhoi ar waith er mwyn ceisio nodi meysydd i'w gwella fel bod modd cymryd camau priodol lle bo angen. Cadarnhaodd y staff fod amserlenni glanhau ar waith er mwyn hyrwyddo gweithdrefnau glanhau rheolaidd ac effeithiol yn yr ysbyty. Roedd y staff yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran atal a rheoli heintiau a gwelwyd bod y staff yn cyflawni eu dyletswyddau glanhau yn effeithiol.

Roedd yr ysbyty yn lân iawn, yn daclus ac yn drefnus. Drwy gydol yr arolygiad, gwnaeth y tîm arolygu nodi lefel uchel o lendid yn yr ysbyty, a oedd yn cyfrannu at wella profiad y cleifion tra roeddent yn aros yn yr ysbyty.

Roedd cyfleusterau golchi dillad ar gael yn yr ysbyty fel bod y cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain gyda'r lefel briodol o gymorth gan y staff yn seiliedig ar anghenion unigol.

Maeth

Roedd y cleifion yn cael prydau bwyd ar y ward, gan ddewis o fwydlen yr ysbyty. Dywedwyd wrthym fod gofynion deietegol penodol yn cael eu hystyried. Dywedodd y staff fod y cleifion yn dewis eu prydau bwyd ymlaen llaw, ac os oedd claf yn newid ei feddwl roedd modd rhoi dewis arall iddo fel arfer.

Dywedodd y cleifion wrthym eu bod hefyd yn cael cyfleoedd i baratoi a choginio eu prydau eu hunain yn y gegin therapi galwedigaethol.

Roedd yr ystafelloedd bwyta'n lân ac yn daclus ac yn cynnig amgylchedd addas i gleifion fwyta eu prydau.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd y broses o reoli meddyginiaethau yn ddiogel ac yn effeithiol. Roedd meddyginiaethau yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd y cypyrddau a'r oergelloedd meddyginiaeth wedi'u cloi. Roedd tystiolaeth fod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd yr oergell meddyginiaethau er mwyn gwneud yn siŵr bod meddyginiaethau yn cael eu storio ar y tymheredd a argymhellwyd gan y gwneuthurwr.

Roedd y fferyllfa'n rhoi mewnbwn rheolaidd ac roedd archwiliadau rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn cynorthwyo'r broses o reoli, rhagnodi a rhoi meddyginiaeth ar y ward.

Roedd trefniadau ar waith ar y ward i storio a defnyddio Cyffuriau a Reolir a Chyffuriau a All Gael eu Camddefnyddio. Roedd y cofnodion a welsom yn dangos bod gwiriadau'n cael eu cynnal ddwywaith y dydd a bod llofnodion gan nyrsys yn cadarnhau bod y gwiriadau wedi'u cynnal.

Roedd y Cofnodion Rhoi Meddyginiaeth a welwyd gennym wedi'u cwblhau'n llawn. Gwelsom sawl rownd meddyginiaeth, a gwelsom fod y staff yn rhoi meddyginiaeth mewn modd priodol a phroffesiynol, gan ryngweithio â'r cleifion mewn ffordd barchus ac ystyriol.

Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed

Roedd gan yr ysbyty bolisiâu a phrosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod y staff yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd staff yr ysbyty yn gallu gweld y gweithdrefnau diogelu drwy'r fewnrwyd. Cadarnhaodd uwch-aelodau o'r staff eu bod yn hyderus bod staff yn ymwybodol o'r weithdrefn gywir i'w dilyn pe bai ganddynt bryder yn ymwneud â diogelu. Yn ystod ein trafodaethau â'r staff, roeddent yn gallu dangos gwybodaeth am y broses ar gyfer atgyfeirio achos diogelu.

Roedd gan yr ysbyty weithiwr cymdeithasol ar y safle, a oedd yn gweithredu fel yr arweinydd diogelu ar gyfer yr ysbyty ar y cyd â dirprwy reolwr yr ysbyty, ac a oedd yn ymdrin â'r holl atgyfeiriadau diogelu a'r llwyth gwaith dilynol. Roedd prosesau sefydledig ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn diogelu oedolion a phlant agored i niwed, gydag achosion yn cael eu hatgyfeirio at asiantaethau allanol yn ôl y gofyn.

Roedd yn amlwg o sgysiau â dirprwy reolwr yr ysbyty fod yr ysbyty wedi meithrin cydberthynas waith agos â'r awdurdod lleol. Mae'r dull cydweithredol hwn yn allweddol er mwyn sicrhau prosesau diogelu effeithiol ac roedd yn dangos bod yr ysbyty yn rhoi pwyslais cryf ar ddiogelu eu cleifion.

Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Roedd archwiliadau clinigol rheolaidd yn cael eu cynnal yn yr ysbyty a gwelsom dystiolaeth bod cyfarpar dadebru yn cael ei archwilio'n rheolaidd. Roedd y staff wedi dogfennu pryd cafodd yr archwiliadau hyn eu cynnal er mwyn sicrhau bod y cyfarpar ar gael ac nad oedd unrhyw ddyddiadau wedi mynd heibio. Fodd bynnag, gwnaethom nodi nad oedd y bag argyfwng wedi cael ei gau ar ôl cynnal y gwiriadau.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bag argyfwng yn cael ei gau ar ôl i'r gwiriadau perthnasol gael eu cynnal.

Yn ystod trafodaethau â'r staff, roedd yn glir eu bod yn ymwybodol o leoliadau torwyr clymau i'w defnyddio mewn argyfwng. Roedd archwiliadau diogelwch cyfredol ar gael, gan gynnwys asesiadau risg mewn perthynas â phwyntiau clymu.

Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Ar y cyfan, gwelsom fod systemau a threfniadau llywodraethu ar waith a oedd yn helpu i sicrhau bod y staff yn rhoi gofal diogel a chlinigol effeithiol i'r cleifion. Roedd system electronig sefydledig ar waith ar gyfer cofnodi, adolygu a monitro digwyddiadau diogelwch cleifion. Cadarnhaodd y staff fod ôl-drafodaethau yn cael eu cynnal ar ôl digwyddiadau. Cadarnhaodd y cyfarfodydd y gwnaethom eu mynychu a'r dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad y caiff digwyddiadau a'r defnydd o ymyriadau corfforol eu gwirio a'u goruchwyllo'n gadarn.

Cadarnhaodd y dystiolaeth a gafwyd yn ystod yr arolygiad mai anaml y ceir digwyddiadau ac anaml y caiff ymyriadau corfforol eu defnyddio. Roedd hyn yn dangos fod y model gofal lleiaf cyfyngol yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol yn yr ysbyty, gan ganolbwyntio ar ymgysylltiad therapiwtig rhwng y staff a'r cleifion a oedd yn creu awyrgylch hamddenol ar y ward. Pan fydd rhywun yn cael ei atal yn gorfforol, caiff yr holl waith papur a gwblhawyd ei wirio a'i oruchwyllo'n gadarn a chaiff unrhyw wersi a ddysgwyd eu rhannu â'r staff.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Roedd y staff yn cwblhau'r siartiau arsylwi yn unol â'r canllawiau. At hynny, roedd yr arweinwyr tîm yn monitro ac yn archwilio'r broses o gwblhau siartiau arsylwi. Roedd hwn yn faes a oedd wedi gwella ers ein harolygiad diwethaf.

Rheoli cofnodion

Roedd cofnodion y cleifion yn cael eu cadw mewn ffeiliau papur gan fwyaf a oedd yn cael eu storio a'u cadw dan glo yn swyddfa'r nyrsys, gyda rhywfaint o ddogfennaeth electronig a oedd yn cael ei diogelu gan gyfrinair.

Ceir rhagor o wybodaeth am ein canfyddiadau mewn perthynas â chofnodion cleifion a chynlluniau gofal yn adran Cynllunio a Darparu Gofal, Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 yr adroddiad hwn.

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Gwnaethom edrych ar ddogfennau cadw statudol pum claf yn yr ysbyty.

Gwelsom fod pob claf yn cael ei gadw'n gyfreithlon yn unol â'r ddeddfwriaeth a bod dogfennaeth dda yn cael ei chadw. Ar y cyfan, roedd y cofnodion a welsom yn drefnus, yn hawdd eu defnyddio ac yn cynnwys gwybodaeth fanwl a pherthnasol.

Monitro Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010: Cynllunio a darparu gofal

Gwnaethom edrych ar gynlluniau gofal pum claf. Gwnaethom adolygu pump ffeil gofal a gwelsom eu bod yn cael eu cadw i safon dda.

Roedd y cofnodion yn gynhwysfawr ac roedd adnoddau asesu cydnabyddedig yn cael eu defnyddio i fonitro iechyd meddwl a chorfforol.

Gwelsom dystiolaeth fod y cynlluniau gofal yn fanwl, yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod cymorth yn cael ei roi mewn ffordd strwythuredig er mwyn galluogi cleifion i gyflawni eu nodau unigol. Dangosodd ein canfyddiadau dystiolaeth glir o waith amlddisgyblaethol yn y cynlluniau gofal; roedd hyn yn helpu i gefnogi'r ysbyty i ddarparu gofal cynhwysfawr i'r cleifion.

Roedd y broses o reoli ymddygiadau'r cleifion yn cael ei hadlewyrchu yn eu cynlluniau gofal a'r proffil rheoli risg, ac roedd hyfforddiant ar gael i'r staff i ddefnyddio sgiliau i reoli sefyllfaoedd anodd a'u tawelu.

Gwelodd y tîm arolygu achosion cadarnhaol o ailgyfeirio a thawelu ymddygiadau anodd. Roedd yr achosion hyn yn cael eu trin mewn ffordd gefnogol iawn, llawn parch.

Gwelsom fod y ffeiliau gofal yn dangos yn glir fod y cleifion yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau gofal a oedd yn canolbwyntio ar y claf ac yn cael eu llofnodi gan y claf. Roedd enghreifftiau o ddogfennau hawdd eu deall yn ffeiliau'r cleifion ac roedd pob un o'r rhain wedi'i deilwra at yr unigolyn.

Roedd y cofnodion hefyd yn cynnwys tystiolaeth o leisiau'r cleifion er mwyn adlewyrchu eu barn, ond nododd un o'r cleifion yn ei holiadur nad oedd wedi gweld ei gynllun gofal.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael y cyfle i weld ei gynllun gofal.

Roedd tystiolaeth gadarn o asesiadau galluedd y Ddeddf Galluedd Meddyliol ynghyd â chyfarfodydd budd pennaf. Hefyd, roedd ymatebion y cleifion yn cael eu nodi, lle y bo'n briodol.

Roedd tystiolaeth dda i ddangos bod asesiadau poen yn cael eu cynnal, ac os oedd newid yng nghyflwr y cleifion, byddai asesiadau risg yn cael eu cwblhau. Roedd y broses o fonitro iechyd corfforol yn cael ei chofnodi'n gyson yng nghofnodion y cleifion. Gwelwyd tystiolaeth fod y cleifion yn gallu cael gafael ar wasanaethau iechyd sylfaenol ac aciwt pan fo angen. Ar y cyfan, roedd y ddogfennaeth nyrsio a welsom yn dda ac roedd yr asesiadau corfforol yn gynhwysfawr.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Gwelsom fod gwelliannau sylweddol wedi'u gwneud ers ein harolygiad diwethaf yn 2019. Roedd systemau a phrosesau penodol iawn ar waith i sicrhau bod yr ysbyty yn canolbwyntio ar wella ei wasanaethau'n barhaus. Mae angen parhau i wella'r ffocws ar sicrhau bod y staff yn cydymffurfio â'r gofynion o ran hyfforddiant gorfodol.

Yn ystod yr arolygiad, cawsom sicrwydd gan yr uwch-reolwyr fod archwiliadau mewnol yn cael eu cynnal a chafodd y tîm dystiolaeth o amrywiaeth o archwiliadau a gynhaliwyd a gwelliannau a wnaed. Darparwyd y dogfennau hyn yn brydlon i'r tîm, gan ddangos bod y systemau a'r strwythurau cywir ar waith.

Roedd gan yr ysbyty strwythur sefydliadol clir, a oedd yn cynnig llinellau rheoli ac atebolrwydd clir. Roedd y trefniadau hyn wedi'u diffinio yn ystod y dydd, ac roedd systemau ar gyfer uwch-reolwyr a gwasanaeth ar alw ar waith ar gyfer y shift nos.

Roedd rheolwr a dirprwy reolwr yr ysbyty yn cynnig arweinyddiaeth ymroddedig a brwdfrydig ac yn cael eu cefnogi gan dimau amlddisgyblaethol a grŵp o staff ymroddedig ar y wardiau. Gwelsom dîm o staff cyfeillgar a phroffesiynol a oedd yn dangos ymrwymiad i ddarparu gofal o ansawdd uchel i gleifion. Roedd y staff yn gallu disgrifio eu rolau ac roeddent yn ymddangos yn wybodus am anghenion gofal y rhan fwyaf o'r cleifion roeddent yn gyfrifol amdanynt.

Yn ystod ein hamser yn yr ysbyty, gwelsom ddiwylliant cadarnhaol a oedd yn cynnwys cydberthnasau da rhwng y staff y nodwyd gennym eu bod yn cydweithio'n dda fel tîm. Roedd yn amlwg bod y staff yn anelu at ddarparu lefel uchel o ofal i'r grwpiau cleifion i'w helpu i wella'n gyflymach ac i leihau hyd eu harhosiad yn yr ysbyty. Roedd yn amlwg bod rheolwr yr ysbyty, y dirprwy reolwr a'r arweinwyr tîm yn arwain mewn ffordd gefnogol iawn a'u bod yn hawdd mynd atynt, a chadarnhawyd hyn hefyd yn ystod y cyfweiliadau â'r staff.

Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Fel y nodwyd yn gynharach, roedd prosesau sefydledig ar waith ar gyfer ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau yn yr ysbyty.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau â'r staff yn yr ysbyty a'r sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Roedd trefniadau ar waith i rannu gwybodaeth a gwersi a ddysgwyd o gwynion a digwyddiadau yn gyflym â'r staff yn yr ysbyty ac yn y sefydliad yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn helpu i hybu diogelwch cleifion ac i wella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus.

Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y staff yn gweithio'n dda fel tîm ac roeddent yn ymddangos fel pe baent yn llawn cymhelliant i ddarparu gofal ymroddedig i'r cleifion. Roedd yr aelodau o staff y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y gefnogaeth roeddent yn ei chael gan gydweithwyr, a'r arweinyddiaeth gan eu rheolwyr.

Gwelsom dystiolaeth yn ffeiliau'r staff eu bod yn cael arfarniadau blynyddol a sesiynau goruchwyllo.

Ystyriodd y tîm arolygu lefelau cydymffurfiaeth y staff â hyfforddiant, a chawsom restr o gydymffurfiaeth staff â hyfforddiant gorfodol. Roedd y cyfraddau hyfforddiant yn dangos bod angen gwneud gwelliannau o ran hyfforddiant ymyriadau corfforol. Y lefel gydymffurfiaeth gyffredinol ar gyfer yr hyfforddiant hwnnw oedd 66% ar hyn o bryd. Dywedwyd wrthym y byddai'r cyfraddau hyn yn cael eu gwella ar unwaith, a gwelsom dystiolaeth bod cyrsiau wedi cael eu trefnu ar gyfer y staff, gan mai dim ond yn ddiweddar y daeth hyfforddiant rhai o'r aelodau o staff i ben. At hynny, cawsom sicrwydd bod digon o staff sydd wedi cael hyfforddiant ar atal cleifion yn gorfforol yn gweithio ar bob shift, tra bo gweddill y staff yn aros i gwblhau'r cyrsiau.

Dywedodd rheolwr yr ysbyty wrthym am gynlluniau yn y dyfodol i hyfforddi rhai o aelodau'r staff i allu darparu hyfforddiant ar atal cleifion yn gorfforol yn yr ysbyty, gan anelu at allu teilwra hyfforddiant yn y dyfodol at anghenion y cleifion yn unol â'u cynlluniau gofal.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol eu gwella.

Cawsom amrywiaeth o bolisiau i edrych arnynt, ond nodwyd gennym fod y dyddiad adolygu ar rai o'r fersiynau hynny wedi mynd heibio. Nid oedd y polisiau canlynol yn gyfredol:

- Polisi recriwtio - dyddiad adolygu mis Mai 2023
- Galluedd i gydsynio i archwiliad a chydsynio i driniaeth - dyddiad adolygu mis Mawrth 2023
- Polisi cynlluniau wrth gefn mewn argyfwng - dyddiad adolygu mis Mehefin 2023.

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu.

Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Roedd yn amlwg bod systemau ar waith er mwyn sicrhau bod y broses recriwtio yn un agored a theg. Cyn eu cyflogi, roedd angen geirdaon ar gyfer y staff. Roedd

gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn cael eu cynnal ac roedd cymwysterau proffesiynol yn cael eu cadarnhau. Felly, cawsom sicrwydd fod y broses recriwtio yn un agored a theg.

Roedd rheolwr yr ysbyty wedi gwneud gwelliannau sylweddol o ran lleihau'r defnydd o staff asiantaeth yn yr ysbyty ers yr arolygiad diwethaf, ac roedd wedi arwain menter lwyddiannus i recriwtio a chadw staff. Nid oedd unrhyw swyddi gwag ar gyfer nyrsys na staff cymorth gofal iechyd yn yr ysbyty ar hyn o bryd, a oedd yn adlewyrchu llwyddiant y cynllun gweithredu i recriwtio a chadw staff a roddwyd ar waith gan reolwr yr ysbyty.

Roedd aelodau newydd o'r staff yn ymgymryd â chyfnod sefydlu, ac roedd rheolwr yr ysbyty wedi dylunio a chyflwyno cwrs unigryw ar gyfer pob aelod o staff newydd. Roedd y cwrs hwn hefyd ar gael i aelodau presennol o staff er mwyn iddynt gael hyfforddiant gloywi. Roedd taflenni gwybodaeth barod hefyd ar gael er mwyn helpu aelodau newydd o staff neu staff asiantaeth i gefnogi'r cleifion yn yr ysbyty.

Roedd rheolwr yr ysbyty wedi cynnal sesiynau briffio er mwyn helpu pob aelod o'r staff i ddeall rôl a chyfrifoldebau AGIC. Yn ystod y cyfarfod hwn, trafodwyd canfyddiadau adroddiad arolygu blaenorol AGIC er mwyn gwella gofal cleifion a dealltwriaeth y staff o ganfyddiadau'r adroddiad blaenorol. O ganlyniad, roedd gan y staff well dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o rôl AGIC, ac roedd y grŵp o staff wedi gweithio'n galed i roi'r argymhellion o'r adroddiad blaenorol ar waith er mwyn gwella diogelwch cleifion ac ansawdd y gofal a ddarperir yn yr ysbyty. Nodwyd hyn fel maes o arfer da, a dywedodd y staff wrthym yn ystod y cyfweiliadau fod y sesiynau wedi bod o fudd mawr iddynt.

Roedd gan yr ysbyty bolisi clir ar waith er mwyn i'r staff allu mynegi pryderon. Roedd cymorth iechyd galwedigaethol ar gael hefyd ac roedd y staff yn siarad yn gadarnhaol am y cymorth lles a oedd yn cael ei ddarparu gan y tîm rheoli. Roedd systemau da ar waith i gefnogi lles y staff.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgysfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon yr oedd angen ymdrin â nhw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol St David's

Dyddiad yr arolygiad: 19, 20 a 21 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ni nodwyd unrhyw welliannau yr oedd angen eu gwneud ar unwaith.				

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau):

Teitl swydd:

Dyddiad:

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Annibynnol St David's

Dyddiad yr arolygiad: 19 - 21 Mehefin 2023

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod hysbysfyrddau i gleifion yn gyfredol.	4.2 Gwybodaeth i Gleifion	Mae'r hysbysfyrddau i gleifion bellach yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf ac mae gwiriadau ar waith i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn cynnwys y wybodaeth bresennol.	Uwch-weithiwr Cymdeithasol	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y cleifion yn gallu cyrraedd y clychau galw yn eu hystafelloedd gwely yn hawdd.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Cysylltwyd â Snowdonia Fire ac adran ystadau MHC er mwyn iddynt asesu'r sefyllfa a darparu dulliau amgen i'r cleifion gyrraedd y clychau galw yn yr ystafelloedd gwely yn hawdd. Rydym yn aros am yr asesiad.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth Pennaeth Ystadau Gweithiwr Cynnal a Chadw	Parhaus

Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y gwelliannau amgylcheddol canlynol yn cael eu gwneud: • Mae angen ailbaentio waliau'r coridor ar y llawr cyntaf • Mae angen gosod clo newydd ar y drws yn ardal yr ystafell fwyta fach i gleifion • Mae'r dodrefn yn y lolfa glinigol a'r dodrefn a ddefnyddir gan y staff i gynnal arsylwadau wedi treulio ac mae angen eu trwsio neu gael rhai newydd yn eu lle.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	• Mae'r gwaith o baentio waliau'r coridor wedi dechrau. • Mae clo arall wedi'i osod ar ddrws ystafell fwyta fach y cleifion. • Cysylltwyd â'r cwmni dodrefn ETB (17/07/23) i drafod trwsio'r dodrefn a chael dodrefn newydd yn lle'r dodrefn yn y lolfa glinigol a'r dodrefn a ddefnyddir gan y staff i gynnal arsylwadau, ac rydym yn aros am ddyfynbris.	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth Pennaeth Ystadau Gweithiwr Cynnal a Chadw Rheolwr yr Ysbyty Dirprwy Reolwr yr Ysbyty	Wedi'i gwblhau (18/07/23) Wedi'i gwblhau Medi 2023
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod y bag argyfwng yn cael ei gau ar ôl i'r gwiriadau perthnasol gael eu cynnal.	7. Gofal diogel a chlinigol effeithiol	Archebwyd y tagiau diogelwch ar ddiwrnod yr Arolygiad ac maent wedi cyrraedd St. David's. Mae'r bagiau argyfwng bellach yn cael	Dirprwy Reolwr yr Ysbyty	Wedi'i gwblhau ym mis Mehefin 2023

		eu cau ar ôl i'r gwiriadau gael eu cynnal.		
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob claf yn cael y cyfle i weld ei gynllun gofal.	20. Cofnodion	Mae gwerthfawrogi'r cleifion fel cyfranogwyr gweithredol yn y broses o gynllunio a rheoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain yn allweddol ar gyfer pob un o'r cleifion yn St. David's. Mae pob claf yn gallu adolygu ei gynllun gofal a chymorth wedi'i bersonoli yn ffurfiol ac yn anffurfiol gyda'i nyrs benodedig yn ystod ei sesiynau â'r unigolyn hwnnw ac yn ystod adolygiadau misol y tîm amlddisgyblaethol.	Clinigwyr Cyfrifol Tîm Amlddisgyblaethol Rheolwr yr Ysbyty Dirprwy Reolwr yr Ysbyty	Parhaus
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau bod pob polisi yn cael ei ddiweddarau a'i adolygu.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol	Caiff pob polisi ei adolygu a'i ddiweddarau yn rheolaidd gan y tîm uwch-reolwyr.	Rheolwr Gyfarwyddwr	Wedi'i gwblhau
Rhaid i'r darparwr cofrestredig sicrhau y caiff cyfraddau cwblhau hyfforddiant gorfodol eu gwella.	25. Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a	Caiff lefelau cydymffurfiaeth â hyfforddiant gorfodol eu monitro, mae hyfforddiant wedi'i drefnu ar	Rheolwr yr Ysbyty Dirprwy Reolwr yr Ysbyty	Parhaus

	datblygiad sefydliadol	gyfer pob aelod o'r staff sydd ei angen ac mae'r ystadegau hyfforddiant wedi gwella. Mae matrics hyfforddiant wedi cael ei roi ar waith i fonitro cydymffurfiaeth. Caiff ei adolygu bob wythnos.		
--	---------------------------	--	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Alieu Jallow

Swydd: Rheolwr yr Ysbyty

Dyddiad: 18/07/2023